| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **HYDREF 23 2014** |
| **TEITL:** | **STRWYTHUR YMCHWIL AR GYFER Y PWYLLGOR IAITH** |
| **AWDUR:** | **SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CANFOD BARN Y PWYLLGOR AR Y POSIBILIADAU A'R MEYSYDD GWAITH** |

## 1. CEFNDIR

1.1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Iaith ar 26/06/14, mynegwyd dymuniad i'r Pwyllgor gymryd rôl fwy rhagweithiol mewn perthynas â rhai meysydd: Un fyddai'n arwain at ymateb mwy manwl ac argymhellion mwy pendant na'r drefn a ganiateir gan gyfarfodydd arferol y Pwyllgor.

1.2. Nodwyd y byddai angen fod yn sicr ynglŷn â phwrpas unrhyw rôl newydd a hefyd ynglŷn â digonolrwydd ein strwythurau i gefnogi cynnig o'r math. Pwrpas yr Adroddiad yma yw amlinellu be all fod yn bosib ac i bennu pa feysydd a ddymunai'r Pwyllgor ymgymryd â hwy.

1.3. Byddai angen i unrhyw drefn fod yn gydnaws a Chylch Gorchwyl y Pwyllgor Iaith:

- Goruchwylio Cynllun Iaith Cyngor Gwynedd
- Pennu cyfeiriad strategol ar faterion yn ymwneud a'r Gymraeg yn unol â'r angen
- Gweithredu fel corff ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y sir, gan wneud awgrymiadau i'r Cabinet yn ôl yr angen.

## 2. POSIBILIADAU AR GYFER Y STRWYTHUR YMCHWIL.

2.1. Er mwyn cadw ffocws clir i'r gwaith, awgrymir cynnal un ymchwiliad yn unig ar y tro, gydag uchafswm o 2 ymchwiliad o fewn blwyddyn galendr. Byddai hyn yn gyffelyb a'r drefn Ymchwiliadau Craffu.

2.2. Bydd angen penderfynu os yw'r strwythur am gyfarch anghenion mewnol y Cyngor yntau materion ehangach yn ogystal. Sylwer fodd bynnag mai Pwyllgor sy'n ymwneud a pholisïau a threfniadau'r Cyngor yw'r Pwyllgor Iaith. Os mai ymarferoldeb a chanlyniadau clir yw'r amcan, byddai hyn yn llawer haws i'w gyflawni drwy ganolbwyntio ar yr hyn sydd o fewn ein rheolaeth.

2.3. O adnabod meysydd mewnol, byddai modd i Is-grŵp o'r Pwyllgor Iaith drafod y mater mewn manylder a chyflwyno argymhellion i'r Adran neu Uned berthnasol, gan wneud cais am ymateb a monitro gweithrediad.

2.4. O edrych yn ehangach na gweithdrefnau'r Cyngor, bydd rhaid derbyn na fydd datrysiadau ymarferol mor hawdd i'w cyflawni os nad oes gennym unrhyw awdurdod neu ddylanwad dros y sefydliad dan sylw. Mae'n debyg mai gwaith lobïo yn hytrach na diwygio a gwella byddai'n codi o drafodaethau o'r math yma. Dylid nodi'n ogystal y gall trafodaethau cymhleth a maith fod yn fwy o draul ar gapasiti'r Cyngor.

## 3. YSTYRIAETHAU

3.1. Gofynnir am farn y Pwyllgor Iaith ar:

- Yr awgrymiadau strwythurol a amlinellir yn yr Adroddiad hwn
- Blaenoriaethau ar gyfer meysydd ymchwil pellach.